PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# GWRANDO AR FABANOD

## SUT GALLWN NI WRANDO?

*Mae rhoi "llais" i fabanod yn helpu pawb sy'n gofalu amdanynt i ddeall eu natur unigryw, eu cryfderau a'u hanghenion.*

Arsylwi yw'r ffordd hawsaf o wrando ar fabanod, gan ddilyn eu diddordebau a'r ciwiau llafar a dieiriau i'ch helpu i weld y byd trwy eu llygaid nhw.

Gwylio – gwylio iaith y corff er mwyn deall sut mae babanod yn teimlo ac yn ymateb i brofiadau

### Arsylwi anffurfiol/naturiol

Bod yn ymwybodol a threulio amser yn gwylio ac yn gwrando ar ddiddordebau'r baban a'r pethau mae'n eu hoffi neu nad yw'n eu hoffi. Bydd sylwi ar eu cyfathrebu a'u ciwiau llafar a dieiriau yn rhoi gwybodaeth i chi am feddyliau a theimladau'r plentyn, sy'n gallu cefnogi'r rhyngweithio â nhw a'u gofal o ddydd i ddydd

- *Gall yr arsylwadau hyn ddigwydd yn y fan a'r lle neu dros gyfnod hirach o amser*
- *Efallai y byddwch am drafod gyda'r bobl eraill sy'n gofalu am y baban er mwyn cefnogi parhad gofal*

### Lled-strwythuredig

Meddu ar ffocws penodol neu ddefnyddio rhestr o bropiau arsylwi i adnabod a chofnodi ciwiau dieiriau a iaith y corff

- *Defnyddiwch siart gyfrif i fonitro pa deganau mae'r babanod yn eu dewis neu ym mha ran o'r ystafell maen nhw'n dewis chwarae a sut maen nhw'n ymateb. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i chi am beth maen nhw'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi*

- *· astudio symudiadau – dros gyfnod o ddiwrnod neu wythnos, mapiwch ble a chyda phwy mae'r baban yn dewis chwarae, gan gofnodi seiniau a symudiadau'r baban a'ch ymateb chi iddynt*

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**

| Siart Arsylwi |
| --- |
| Ymateb wyneb cadarnhaol (gwên ac ati) |
| Ymateb wyneb negyddol (gwg ac ati) |
| Hoelio sylw ar y gweithgaredd |
| Hoelio sylw arnoch chi (cyswllt llygaid) |
| Agosrwydd atoch (pen yn cyffwrdd; agosáu yn gorfforol atoch) |
| Archwilio â'r synhwyrau (gwrando, cyffwrdd, arogli) |
| Symud tuag at y gweithgaredd (y corff neu'r pen) |
| Symud i ffwrdd o'r gweithgaredd (y corff neu'r pen) |
| Ymateb sain cadarnhaol (chwerthin, piffian ac ati) |
| Ymateb sain negyddol (llefain, tuchan ac ati) |
| Symudiad corfforol cadarnhaol (cicio'r coesau, bownsio ac ati) |
| Symudiad corfforol negyddol (cicio'r coesau, anesm-wytho) |

*Dyma enghraifft o'r siart arsylwi a ddefnyddir gan*

**Dechrau'n Deg Blaenau Gwent**

**https://youtu.be/HB2FypcZdbM**



## Dull gweithredu strwythuredig

Mae system Arsylwi Ymddygiad Babanod Newyddanedig (NBO) yn offeryn a luniwyd i helpu rhieni ac ymarferwyr i rannu nodweddion unigryw a chyfareddol baban trwy arsylwi ymddygiad, sef ei iaith. Mae'n rhoi "llais" i'r baban, a chyfle i'r baban ddangos i'r sawl sy'n rhoi gofal pwy ydyw, beth yw ei hoffterau a'i fannau gwan posibl ac ym mha feysydd y gallai fod angen cymorth. Fe'i defnyddir yn aml yn y sector iechyd a chan glinigwyr er mwyn cefnogi a gwella'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn ifanc. Mae angen derbyn hyfforddiant penodol er mwyn cwblhau'r arsylwadau.

I gael gwybod rhagor https://www.brazelton.co.uk/

***Sylwch: Y rhai sy'n rhoi gofal sy'n adnabod y plentyn orau; canllaw yw hyn – a dylid ei addasu a'i ddefnyddio i gefnogi pob plentyn unigol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.childreninwales.org.uk/cy***